

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Ionawr 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 4

Blwyddyn newydd dda i'n holl ddarllenwyr. Rydym wedi bod trwy gyfnod anodd iawn ond eto wedi llwyddo i gyhoeddi'r *Llais* ar-lein bob mis. Diolch i Anwen a'r tîm am ddal ati. Rydym yn ddyledus i Dan y Cigydd a'i dîm ac i Ros y bostfeistres sydd wedi llwyddo i gynnal rhyw fath o normalrwydd yn ystod y misoedd lletchwith diweddar hyn.

Dydy sbwriel yn y gymuned byth yn broblem diolch i David Plumb, sy'n llenwi sachau coch dirifedi wrth hel sbwriel o gwmpas y pentre.

Mae'r blodau ar y gylchfan yn codi'n calonnau – siawns ein bod yn haeddu gwobr!

Mae'r Ystafelloedd Coco wedi cael eu peintio ac wedi cael carped newydd tra'u bod yn wag. Gobeithio y byddwn yn gallu cyfarfod yno eto cyn bo hir – mae colled fawr ar ôl y boreau coffi a'r cyfarfodydd.

Diolch i grant yn sgil Covid ac arian gan y Cyngor Cymuned, bydd y plant yn mwynhau offer chwarae newydd yng Nghae Nant cyn bo hir.

Yn sgil y cyfnodau clo, mae cerdded a mynd â'r ci am dro wedi bod yn boblogaidd iawn. Mae sedd newydd wedi'i gosod ger croesffordd Celynog, i roi cyfle i orffwys ac edmygu'r olygfa. Mae camfeydd wedi'u trwsio, a gatau wedi dod yn lle ambell un, diolch i gerddwyr brwd a chydweithrediad tîrfeiddanwyr.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ar Zoom – profiad dieithr ond cynhyrchiol. Mae ein cymdogaeth yn parhau i fod yn gryf ac yn gefnogol er gwaethaf popeth. Diolch i bawb sy'n cyfrannu at y *Llais* mewn unrhyw fodd. Daliwch ati – chi sy'n gwneud y cylchgrawn yn un mor ddiddorol.

Ruth Griffith

*Cadeirydd pwyllgor Llais Llandyrnog Voice a
Chyngor Cymuned Llandyrnog*



Dyma nhw'n dod (mis Rhagfyr 2017)...



...a dyma nhw'n mynd (mis Rhagfyr 2020).

Mae gweld y seilos a pheiriannau ac offer eraill yn gadael safle Arla yn olygfa drist iawn. Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn gwneud gwerthu'r safle'n haws – gobeithiwn y bydd rhyw fath o weithgaredd yno yn 2021.

Diolch o galon am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Mae'n bleser dweud bod y cyfraniadau rydym wedi'u cael yn ddiweddar yn ein galluogi i argraffu'r rhifyn hwn mewn lliw. Gobeithio bydd hyn yn help i godi'ch calon.

Pytiau newyddion y pentre

Fideos y Nadolig: mae trigolion a chyn-drigolion y pentre wedi'u recordio yn canu caneuon y Nadolig. Mae rhai o blant y pentre, ynghyd ag Elen (Y Berth) a'r teulu wedi recordio'r gân 'Ti fan hyn'. Prosiect yr Eisteddfod Genedlaethol oedd hwn a oedd yn cynnwys 26 côr o Gymru gyfan ac o Lundain. Recordiodd Elen a'r merched eu cyfraniad gartref yn yr Eidal. I weld y fideo, ewch i [youtube.com](https://www.youtube.com) a chwiliwch am 'Ti fan hyn'.

Hefyd gwelwyd Daniel Lloyd mewn fideo, 'Hwyl yr ŵyl'. Rhyddhawyd hwn i godi arian i greu prosiectau Theatr na nÓg a fydd, yn eu tro, yn cyflogi gweithwyr ar eu liwt eu hunain. Recordiwyd y fideo yn y Stiwt, Rhosllannerchrugog. Chwiliwch am 'Hwyl yr ŵyl' ar [youtube.com](https://www.youtube.com), gan ddewis fersiwn Theatr na nÓg.

Y gylchfan: Mae planhigion a blodau'r gaeaf wedi'u plannu yn lle blodau'r haf ar y gylchfan. Diolch eto i Ruth Griffith a Bryn Davies o'r Cyngor Cymuned am eu gwaith caled. Mae'r cynifer o bobl sy'n canmol y gylchfan liwgar yn dyst i'r gwerthfawrogiad o'u gwaith.

Diolch: Mae Wendy Grey-Lloyd yn diolch o galon am yr holl gardiau a galwadau ffôn a gafodd ar ôl ei chyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Yn benodol fe hoffai ddiolch i'w chymdogion, Bryn ac Anwen Davies, a Richard ac Iona Davies a phlant y ddau deulu, am y cymorth a'r gefnogaeth anhygoel mae hi wedi'u cael ganddyn nhw yn ystod y naw mis diwetha. Mae geiriau'n annigonol i fynegi ei theimladau diolchgar am eu gofal amdani yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diolch yn fawr.

Croeso: i Karen a Marc Owen i'w cartref newydd yn Nant Glyd. Gobeithio y cewch gyfle i gwrdd â'ch cyd-bentrefwyr cyn bo hir.

Llongyfarchiadau i Pentre Mawr ar gael gwobr 'Best of Britain' gan Bridebook, y busnes cynllunio priodasau. Ar wefan Bridebook, mae ar restr y prif lefydd i gynnal priodas ynddyn nhw yng Nghymru.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Dan ein cigydd a Hannah ar eu dyweddiad, nos Galan. **Cydyndeimlwn yn ddwys** â thrysorydd y Llais, Ivan Butler, ar ei brofedigaeth ddiweddar. Bu farw ei fam.

Dymuniadau da: i David Owen, Prompt Travel am wellhad buan.

Apêl daer

Yn anffodus, mae'n siŵr fod bron pawb ohonom yn adnabod rhywun sydd wedi cael COVID-19 neu sydd wedi marw o'r clefyd. Yn ystod y gwyliau, mae hi wedi bod yn amlwg iawn nad yw pawb yn gwybod beth canllawiau Rhybudd Lefel 4 COVID-19, neu efallai eu bod yn dewis anwybyddu'r canllawiau. Os nad ydych yn siŵr, ewch i <https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4-cwestiynau-cyffredin>.

Mae'r gwasanaeth iechyd yn gwegian a staff ysbytai ar eu gliniau.

Er mwyn eich anwyliaid, cadwch at y canllawiau.

City Travel & Tours

Local ABTA &
ATOL Bonded
Independent
Travel Agent



Cruises, coach tours, family holidays,
skiing trips, concert events, UK breaks
– you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined
90 years of travel experience, so call us
for friendly travel advice.

We are based at Tweedmill, St Asaph
Tel: 01745 730321
Email: citytravel@tarsc.net

Syndicet olew Llandyrnog

Nod y grŵp hwn yw helpu ei aelodau yn ardal Llandyrnog i archebu olew am bris rhatach drwy weithio ar y cyd. Bydd y grŵp o fantais i os ydy pawb yn dilyn y canllawiau syml isod. Dyma sut mae'n gweithio:

1. Bydd unrhyw un a fyddai'n hoffi ymuno â'r grŵp yn anfon cais drwy Facebook. Rhoddir gwybodaeth am y grŵp ar Facebook yn unig oherwydd cymhlethdodau GDPR ynghylch cadw gwybodaeth bersonol. Mae'r trefnwyr yn deall yn iawn nad yw pawb yn defnyddio Facebook, felly petai rhywun am fanteisio ar y pris rhatach, efallai y gallai perthynas neu ffrind ymuno â'r grŵp ar ei ran. Bydd y trefnydd (Jason Jones) yn derbyn y cais hwnnw, gan dybio bod y sawl yn byw yn ardal Llandyrnog neu o fewn 3 milltir i'r pentref.
2. Ar yr 20fed o bob mis (ac eithrio misoedd Mehefin, Gorffennaf, Awst a Rhagfyr) bydd y trefnwyr yn rhoi neges yn y grŵp yn gofyn am archebion. Wedyn gall yr aelodau ateb i ddweud eu bod yn dymuno archebu a rhaid gwneud hyn erbyn y 25ain o bob mis fan hwyraf. Yr unig fanylion angenrheidiol ydy faint o olew sydd ei angen (500 litr, o leiaf) ac os oes angen llenwi tanc yn rhannol neu'n llawn. Os ydyn nhw'n dweud eu bod am lenwi eu tanc, efallai y bydd yr archeb gyfan yn fwy na'r swm o olew maen nhw wedi'i archebu (h.y. efallai y bydd y tanc yn cymryd mwy o olew nag sydd wedi'i

- archebu). PEIDIWCH BYTH â rhannu eich cyf-eiriad nag unrhyw fanylion cyswllt yn y grŵp.
3. Ar y 26ain o bob mis, bydd y trefnydd yn ffonio sawl cyflenwr ac yn cael y pris gorau am gyfanswm y litrau a archebwyd. Wedyn bydd yn rhoi'r wybodaeth yma (h.y. y cyflenwr a'i fanylion cyswllt) ar y dudalen Facebook a bydd pob aelod sydd am archebu olew yn gorfod cysylltu â'r cyflenwr o fewn 48 awr. Bydd unrhyw un sydd wedi dweud ei fod yn bwriadu archebu ond wedyn yn peidio, yn cael ei ddileu o'r grŵp. Efallai fod hyn yn swnio'n llym, ond dim ond os yw pawb yn gweithredu'u bwriad i archebu y bydd y syndicet yn gweithio – e.e. os ydyn ni'n cael pris am gyfanswm o 5000 litr, rhaid i ni archebu 5000 litr. Mae hynny'n golygu bod pawb sydd wedi mynegi eu bwriad, yn archebu'r swm hwnnw gan y cyflenwr.
 4. Rhaid i aelodau dderbyn y gallai pris yr olew godi os nad yw aelodau eraill yn cyflawni ei harcheb. Ond gobeithiwn na fydd hyn yn digwydd!
 5. Pan fydd yr aelodau'n archebu oddi wrth y cyflenwr, eu cyfrifoldeb nhw yw rhoi gwybod i'r cyflenwr am unrhyw faterion fel sut mae mynd at y tanc, cŵn yn yr ardd, cloeon ar gatiau, ac ati. Mae'n amlwg y bydd pob aelod hefyd yn talu am ei archeb ar ôl ei gael.
 6. Os bydd rhywun yn methu ag archebu erbyn dau ddiwrnod ar ôl y 25ain o'r mis, mae croeso iddo gysylltu â'r

cyflenwr a gofyn a oes modd ychwanegu ei archeb. Gallai hyn ddigwydd os nad yw'r tancer wedi'i lenwi eisoes. Ond does dim modd gwarantu hyn.

A. JONES CARPET FITTING & CLEANING

Carpet Fitted/Re-fitted/Repaired & Supplied
Underlay and Accessories Supplied
www.carpetfitter-ajones.co.uk

Pomegranate Floor North Wales

Domestic/Commercial Dry Carpet Cleaning
www.pomegranatefloornorthwales.com

Freephone: 0800 180 4803 Mobile: 07900 907253

Oriel luniau'r darllenwyr



Eglwys San Steffan, Bodfari



Carlwm yn ymweld â'r Gilfach. (Lluniau: Martin Fraser)



Sioe flodau a chynnyrch 2019 – mae gweld cynifer o bobl o dan yr unto yn edrych yn rhyfedd iawn i ni erbyn hyn!



Effaith glaw trwm yn y dyffryn



Ffatri Arla o'r awyr – mae'n siŵr ei bod yn edrych yn wahanol erbyn hyn gyda rhagor o'r seilos wedi'u cymryd oddi yno.

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy

Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

**GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I
LAWR**

01745 815141

07808970364



Mochyn y Nadolig yn codi'r hwyliau ym Mharc Tŷ'n Llan – mae'n amlwg fod Chris a Ruth Griffith, a Chris ac Arfon Pritchard wrth eu boddau yn ei gwmni! (Lluniau: Earle Wright)



Llwynog cyfrwys yn llygadu bwyd yr adar ym Maes-y-Wern. (Llun: John Rowlands)



Diolch i'r Parch. Michael Williams am addurno'r llewod unwaith eto.

DBP 

**Denbigh
Building
Plastics**

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7

Colomendy Industrial Estate

Denbigh LL16 5TA

01745 818849

Open Mon—Fri 7.30am—5 pm

Sat 9 am—12 pm

Gair gan y Rheithor

Blwyddyn Newydd Dda i chi! Wrth i gyfnod y Nadolig ddod i ben, meddyliwn am Nadolig gwahanol iawn eleni. Roedd yn rhaid newid ein cynlluniau ac roeddem yn methu dod ynghyd fel teulu a ffrindiau, ond yr un yw neges y Nadolig – ‘Daeth Crist i’n plith, o llawenhawn.’

Rydym yn gobeithio ac yn gweddïo y bydd 2021 yn flwyddyn well i bawb, gan ddod â heddwch a gwellhad i’n byd. Ar ddechrau pob Blwyddyn Newydd, rydym yn mynegi’n gobeithion a’n hofnau am y flwyddyn i ddod, ond eleni rydym yn un wrth obeithio a gweddïo y bydd y brechiadau’n effeithiol ac y daw’r cyfyngiadau presennol i ben. Ond rhaid i ni fod yn realistig; fydd hyn ddim yn digwydd dros nos a bydd yn rhaid i ni barhau i gadw at ganllawiau’r llywodraeth am beth amser eto.

Yn y Flwyddyn Newydd rydym yn edrych yn ôl ac ymlaen. I bwy mae angen i ni ddiolch am eu cefnogaeth a’u caredigrwydd y llynedd, pwy allwn ni eu helpu a’u cynnal wrth i ni feddwl am beth ddaw yn 2021? Diolchwn i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd, i weithwyr gofal, gyrwyr bysiau, glanhawyr, staff siopau, ac i bawb sydd wedi gweithio’n ddiflino yn y cyfnod heriol ofnadwy hwn.

Yn ystod 2020 rydym wedi dysgu nifer o eiriau newydd, heblaw am Coronafirws a Covid-19. Roedd y rhan fwyaf ohonom heb glywed erioed am *Zoom* na *Teams*, *mute* nag *unmute*, ond rydym wedi dysgu sgiliau newydd, sgiliau a fydd yn parhau. Mae pellter cymdeithasol, cyfnod clo a digynsail wedi dod yn eiriau cyfarwydd ac mae ceisio adnabod a chlywed rhywun sy’n gwisgo mwgwd yn her gyson. Er mor wych yw technoleg, rydym wedi gweld eisiau’r cyffyrddiadau dynol sydd mor bwysig i bawb ohonon ni.

Eto mae 2020 wedi bod yn flwyddyn o haelioni a chefnogaeth pobl o’n cwrdd. Mae pobl nad oedden nhw prin yn adnabod ei gilydd o’r blaen wedi rhannu eu profiadau ac wedi cynnal ei gilydd, gan gadw pellter cymdeithasol, wrth gwrs.

Ar ddiwedd y flwyddyn heriol hon, edrychwn ymlaen yn obeithiol at 2021 well. Wrth gwrs, fydd pethau byth yr un fath eto, ond rydym wedi dysgu rhoi mwy o werth ar y pethau sy’n bwysig go iawn.

Neges y Nadolig yw neges y Flwyddyn Newydd o hyd; Emaniwel, mae Duw gyda ni, beth bynnag ddaw. Daw Iesu, Goleuni’r Byd, â gobaith a gwellhad i fyd sydd ag angen cariad a gofal.

‘Daeth Crist i’n plith, o llawenhawn.’

Gyda phob bendith am Flwyddyn Newydd hapus, iach a heddychlon,

Val Rowlands

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW

01745 814918

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- **Tanalised timber**
- **Concrete posts**
- **Panel fencing**
- **Water pipe fittings**
- **Water tanks**
- **Sand**
- **Cement**
- **Concrete blocks**

Neges ein Cynghorydd Sir

Rwy'n ysgrifennu'r erthygl hon ar nos Galan; mae'n debygol iawn mai dyma un o'r nos-weithiau calan mwyaf rhyfedd ers mis Rhagfyr 1999, wrth i ni groesawu'r 21ain ganrif. Roedd honno'n dipyn o siom hefyd, os cofiaf yn iawn.

Wrth edrych yn ôl, mae ambell barti nos Galan gwych wedi bod yn y White Horse a'r Golden Lion, gyda themâu amrywiol ar gyfer y gwisgoedd ffansi yn y cyfnod pan oedd Ossie ac Eva yn rhedeg y dafarn. Mae'r traddodiad o bawb sy'n dal i fod yn effro yn cyfarfod ar y sgwâr i groesawu'r flwyddyn newydd yn bod ers blynnyddoedd. Rwy'n gobeithio y gallwn ddweud ffarwél wrth COVID-19, gyda'r brechlynnau yn ein helpu i ddychwelyd i ryw fath o fywyd normal, gallu bod gyda'n hanwyliaid eto a'u cofleidio. Bydd y plant yn gallu mynd yn ôl i ryw fath o drefn yn yr ysgol gyda'u ffrindiau ac efallai byddwn yn gallu dod at ein gilydd yn ddiogel ar y sgwâr i groesawu 2022.

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn dal i ddigwydd mewn cyfarfodydd ar-lein. Ym mis Rhagfyr, fe gawson ni wybodaeth am gyllidebau ac fel y gallwch ddychmygu, mae rheoli rhai gwasanaethau yn y cyngor yn mynd i fod yn heriol gyda llai o arian. Mae hi wedi bod yn anodd ar adegau, yn helpu busnesau a phobl hunan-gyflogedig i gael grantiau ac esbonio'r broses iddyn nhw. Rwy'n meddwl ein bod ni wedi gwneud yn reit dda, er nad ydy pethe wedi dod i ben eto. Dydy pawb ddim wedi cael yr help angenrheidiol a dyna sy wedi bod yn anodd. Mae'r coronafirws yma wedi effeithio'n ddifrifol ar fy musnes i a busnes fy nheulu, ac wnawn ni byth mo'i anghofio.

Does gen i ddim newyddion am y ffatri laeth, ddim ond bod yr offer a'r adnoddau'n mynd oddi yno – fe gewch chi wybod os clywa i ragor.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, a dymunaf flwyddyn newydd iach a hapus i chi. Cysylltwch â mi ar unwaith os ydych yn meddwl y gallaf i eich helpu.

Cyngh. Merfyn Parry



Diolch i bawb a fu wrthi'n addurno'r eglwys, ac i Helen Davies yn arbennig am yr angylion a'r bugeiliaid y tu allan i ddrws y porth – fe gyrhaeddodd nhw Fethlehem yn ddiogel!

Prognosticasiwn Dr Powel

Gan nad oes gennym gerdd Gymraeg i gyfateb i benillion Peter Wilson yn y Saesneg, dyma ddetholiad o ragolygon y flwyddyn nesa yn ôl y bardd Siôn Tudur. Mae hanes hwn yn ddiddorol: Wigfair, Cefn Meiriadog oedd ei gartref ac fe dreuliodd cyfnod yn Llundain yn un o warchodwyr y Frenhines Elizabeth y Cyntaf. Ysgrifennodd farddoniaeth i deuluoedd Bodrhyddan, Mostyn a Lleweni. Bu farw yn 1602 ac mae wedi'i gladdu ym mynwent eglwys y plwyf, Llanelwy.

Fe fydd y flwyddyn nesa
Weithie'n law, weithie'n hindda,
Weithie'n rhew, weithie'n eira,
Weithie'n wanwyn, weithie'n ha.

Rhai'n iach a rhai'n gleifion,
Rhai'n dlawd a rhai'n gyfoethogion,
Rhai'n weiniad, rhai'n gryfion,
Rhai'n hael, rhai'n grinion.

Rhai'n gul, rhai'n dewion,
Rhai'n llawen, rhai'n bruddion,
Rhai'n hirion, rhai'n fyrion,
Rhai'n synhwyrol, rhai'n ffolion

Rhai heb garu'u cymdogion,
Rhai'n tynnu anudon*,
Rhai'n llogi oriau gwynion,
Rhai'n rhedeg mewn dyledion.

Rhai'n myned i'w priodi,
Rhai'n myned i'w crogi,
Rhai'n myned i fraenaru,
Rhai'n myned i garu.

Gwell i bawb y flwyddyn nesaf
Fod yn iach na bod yn glaf,
Gwell gan bob dyn hyd dydd brawd
Fod yn gyfoethog na bod yn dlawd.
Sion Tudur

**dwyn camdystiolaeth, dweud celwydd ar lw.
Dim syniad beth yw ystyr 'llogi oriau gwynion'!*

Ysgol Bryn Clwyd

Daeth tymor yr ysgol i ben yn sydyn unwaith eto y mis diwetha, ond cafwyd cyfle i recordio fideo Nadolig bywiog a llawen iawn cyn i'r ysgol gau ei drysau. Ewch i youtube.com i weld 'Ysgol Bryn Clwyd's Christmas Cracker'.



**Ar ran holl dirfeddianwyr y fro:
cofiwch gau gatiau ar eich holau pan
fyddwch yn cerdded ar draws tir fferm
a chadwch eich ci ar dennyn.**



Blue Hand Mowers

Repair and servicing of all garden machinery:

Lawn mowers and lawn tractors

Chain saws

Hedge cutters

Strimmers

Disc cutters

Quad bikes

Leaf blowers

Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google

www.bluehandmowers.co.uk

enquiries@bluehandmowers.co.uk

☎ 0775 20 35 462

Nodiadau o Blas Ashpool

Wel, dyma ni dan glo eto. Mae’r diwrnod byrraf, neu Alban Arthan wedi bod ac felly gallwn edrych ymlaen at flwyddyn oleuach mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Wrth feddwl am destun i’r golofn y mis yma, rwy wedi sylweddoli cymaint o ddi-gwyddiadau bach (ond mawr, weithiau) a chysylltiadau â phobl eraill sydd yn ein byw-ydau.

Rwy’n gorfod troi ar i mewn fwyfwy i’r mân bethau sy’n digwydd o’n cwmpas. Ydych hi’r un fath i chithau? Ond, wrth feddwl eto, onid ydyn ni mor lwcus bod technoleg fodern yn gallu ein helpu ni i ddangos byd ehangach i ni a chyfathrebu â ffrindiau a theulu mewn mannau pell. O’r diwedd, rwy’n dysgu bod wrth fy modd gyda fy nghyfrifiadur.

Does gen i fawr ddim i’w ddweud y mis yma, felly dyma orffen gyda’r ddwy neges yma a ddaeth i fy mlwch e-bost.

‘Gwenwch yn amlach – Meddyliwch lai – Byddwch yn bresennol – Rhowch fwy – Disgwyliwch lai.’

‘Dydyn ni i gyd ddim yn yr un cwch. Rydyn ni yn yr un storm – mae gan rai gychod hwyl-io, eraill ddim ond ceufadau, ac mae rhai’n boddï. Byddwch yn garedig a rhowch help llaw.’

I ddyfynnu’r gomedïwraig Janet Godley, ‘gwisgwch eich siaced arbed bywyd emosiynol a gofawch am eich gilydd’.

Tan y gwanwyn,



Fiona Bell

Dryswch y Fam Ddaear?



Ers blynnyddoedd bellach, mae Myfanwy a Gwil, Tŷ Newydd yn gweld yr eirlysiau yn y border am y tro cynt ar 11eg Tachwedd, ond eleni roedden nhw i’w gweld ar 2ail Tachwedd. Ac roedd cenhinen Bedr yn ei blodau ym Maes-y-Wern ar 13 Rhagfyr, y cynharaf erioed.



Arwydd bod y tymhorau’n newid? Tybed oes rhywun arall o’r pentre wedi cael yr un profiad?

Oriau agor Swyddfa’r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 3pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310



Cofiwch
am ddydd
Santes
Dwynwen
–
25 Ionawr

Taith dractorau'r DPJ Foundation

Efallai'ch bod chi wedi bod yn ymwybodol o daith dractor a ddaeth drwy'r pentref ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr. Hyd yn oed os nad oeddech chi wedi'i gweld, mae'n bur debyg eich bod wedi'i chlywed.

Cafodd ei threfnu gan dîm lleol y DPJ Foundation sy'n rhoi cefnogaeth o ran iechyd meddwl i'r rheini sy'n gweithio ym myd amaeth ac mae ganddo dîm o gwnselwyr sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, a'r rheini ar gael 24 awr y dydd. Roedd hi'n chwa o awyr iach gweld cymaint o bobl ifanc yn rhan o waith y sefydliad ac yn trafod problemau iechyd meddwl yn agored. Pobl ifanc sy'n gweithio'n llawn-amser ond yn fodlon helpu ffrindiau sy'n cael anawsterau iechyd meddwl.

Y cyfanswm a gasglwyd oedd £1730. Os ydych chi wedi cyfrannu – diolch o galon i chi.

Roeddwn i'n ei hystyried hi'n fraint arbennig i gael cais i ymuno â'r tîm. Cyn gynted ag y digwyddodd hyn, fe gysylltais i â'r criw arferol o fy rhestr rhifau ffôn. Er bod y daith yn digwydd ar y dydd Sadwrn cyn y Nadolig, roedd pawb yn ddigon bodlon dod – yn wir, yn edrych ymlaen ati gan nad oes fawr ddim wedi digwydd ers mis Mawrth. Rwy'n adnabod y criw yma'n lled dda: does y fath beth â thywydd gwael yn bod – dim ond y dillad anghywir, fel maen nhw'n ei ddweud!

Roedd yn rhaid i'r mesurau Covid fod yn llym iawn. Yn wahanol i'n digwyddiadau arferol, doedd dim fan gwneud paned a brecwast, dim raffl, dim seibiant i gael cinio ac i gymdeithasu. Y cyfan a gafwyd oedd cyrraedd, aros yn y tractor, cofrestru gyda beir os roedd y teithwyr yn cael eu cadw, rhoi'r tâl am ymuno â'r daith yn y fwced, ac i ffwrdd â nhw.

Beth bynnag, daeth tua chwe deg o dractors ac ychydig o hen Land Rovers.

Roedd y tractors yn amrywio o'r 1950au i 2020 ac fe aethon ni â'r neidr swnllyd, lliwgar, haner milltir o hyd ar daith 25 milltir trwy wahanol bentrefi, gan gynnwys Llandyrnog, wrth gwrs. Roedden ni'n ôl yn Rhuthun erbyn 12.30, yn hen barod am ginio. Wrth yrru cerbyd â sedd uchel am 10 m.y.a., rydych chi'n cael cyfle i edrych o'ch cwmpas ac mae'n syndod beth sy'n cael ei weld – hen dractor neu offer amaethyddol ym môn rhyw glawdd yn rhywle – ond peidiwch â sôn wrth neb!

Aeth y daith yn rhyfeddol, heb neb yn torri i lawr nac yn mynd ar goll – dydy hi ddim yn beth newydd i ddechrau gydag un daith, a gorffen gyda dwy. Fodd bynnag, fe gadwa i'r straeon hynny tan rywbryd eto.

Do, fe wnaethon ni atgofion, fe gawson ni hwyl. Ond i'n cyfeillion iau, roedd hi'n adeg briodol i feddwl am eu ffrindiau oedd yn absennol. Ffrindiau a allai fod yno petaen nhw mond yn gwybod am y DPJ Foundation ac wedi cael help ganddo – mae mor syml â hynny.

Bryn Davies



Roedd y tractor a'r cerbydau eraill yn bob siâp, cyflwr a maint. (Lluniau: uchaf – Amy Weyman; uchod, chwith a dde – Phil McLoughlin)

Os hoffech wybod rhagor am y DPJ Foundation a'i waith, ewch i www.thedpjfoundation.org.uk.

Tri lle

Penycloddiau – y lle ar stepan drws

Dwi wedi bod yn ddigon lwcus i gael ambell ‘stamp yn y pasport’ dros y blynyddoedd ond mae’r hyn sydd gennym ar stepan ein drws yn trympio pob un! Mae un gornel o’r sofffa yn ein stafell fyw yn sanctaidd – ‘reserved for the boss’, fel basa’r plant yn ddeud. O’r gornel honno, mae gen i gywilydd dweud fy mod wedi edrych allan ar Benycloddiau bron bob dydd ers 2003, ond ‘roedd hi’n flynyddoedd cyn mynd ar ei hyd.

Beth bynnag, dros y blynyddoedd diwetha’ rydym wedi bod yn mynd ‘fyny Penycloddiau’ yn rheolaidd, boed hynny fel teulu, hefo ffrindiau neu ar fy mhen fy hun. ‘Dan ni wedi cael ambell baned a hyd yn oed Prosecco neu gacen pen blwydd ar y top.

Wnelo hanner awr o gerdded ysgafn, mae’r wobwr yn fawr gyda golygfeydd godidog i bob cyfeiriad. Mynyddoedd Eryri i’r gorllewin, yr arfordir i’r gogledd, a golygfeydd mwy diwydiannol am y dwyrain. Ac wedyn y clytwaith o drefi, pentrefi a thir amaethyddol wrth edrych yn ôl i fyny’r Dyffryn.

Ac mae rhywbeth newydd neu wahanol bob tro. Yn ystod yr haf, gyda’r dydd yn dirwyn i ben, roedd gweld golau dwfn a chyfoethog y machlud dros wyrddni llawr y Dyffryn yn fyth gofiadwy. Petawn ni yn artist, yn siŵr, mi fyddai pob llun yn wahanol.

Dwn i ddim sawl gwaith yr ydym wedi dweud pa mor lwcus ydym ni o’n hardal yn ystod y flwyddyn ryfeddol ‘dan ni wedi ei chael. Mae’n wir bob gair.

Sorrento – y lle sy’n fy ngwneud i’n hapus

‘Dan ni wedi bod i Sorrento ambell waith. Heb-law’r (neu yn ogystal â’r) ffaith ein bod wedi priodi yno, mae na rhywbeth hudolus iawn am Sorrento sydd bob tro yn rhoi y feel-good factor i mi.

Tref ‘lan môr’ ar arfordir Amalfi ydy Sorrento, a’r ffordd mwya uniongyrchol o gyrraedd ydy hedfan i Napoli. Mae Sorrento rhyw awr o transfer o’r maes awyr ac wrth yrru trwy gyrion Napoli mi fydda i’n meddwl am y



Rheinallt a’r teulu ar gopa Penycloddiau

cyfnod llwyddiannus (a thrasig) yn yr wythdegau pan roddodd Diego Maradona y ddinas ddifreintiedig hon ar y map.

Mae’n siŵr mai’r pethau syml sydd yn cyfri yma. Cael anghofio am bob dim mewn gwesty braf wedi ei amgylchynu gan goed lemon, wrth edrych lawr ar yr haul yn tywynnu dros fae Napoli, gyda llosgfynydd Vesuvius yn y cefndir.

Mi fyddwn yn mwynhau mynd am dro lawr at y porthladd neu blith draphlith trwy’r stryd-oedd cul lle mae bwrlwm y siopau, y gelaterias a’r ristoranti yn dod â’r lle yn fyw.

Does dim curo’r hufen iâ ac fel byddai’r disgwyl, mae mwynhau’r pizzas a’r pasta yn rhan o’r profiad. Bwyd syml a blasus ar ei orau.

Mae hanes anhygoel yn y cyffiniau yma gyda dinasoedd hynafol Pompeii a Herculaneum, a gafodd eu claddu dan lwch folcanig pan ffrwydrodd Vesuvius.

Tri lle: parhad

Gobeithio yn fawr cawn ni fynd yn ôl rhyw ben ... os byw ac iach, yndê.

Berlin – y lle ddaeth a hanes yn fyw i mi

Dydw i fawr o hanesydd ond prin bod dinas arall sydd yn symbylu cymaint o hanes ‘diweddar’ Ewrop. Mae hanes yn ein gwerslyfrau yn aml wedi teimlo fel rhywbeth ‘o oes arall’ ond mae’n sobri rhywun i feddwl bod erchyllterau yr ail ryfel byd wedi digwydd gwta chwarter canrif cyn fy ngeni.

‘Dan ni yn hoff o gymryd y ‘bws coch’ o gwmpas dinas newydd er mwyn dod i nabod lle newydd rhyw ‘chydig. Dyma daith bws oedd yn dod a’r gwerslyfr yn fyw o flaen ein llygaid.

Roedd sgerbydau eglwysi gafodd eu bomio yn dal i sefyll. Ochr yn ochr â’r hen adeiladau yma roedd adeiladau modern, llwydaidd, digon plaen yr olwg, a oedd yn dyst i ddinas a oedd wedi gorfod cael ei hailadeiladu i bob pwrpas.

Wedyn ‘roedd llinell y wal. Y wal oedd yn symbylu y Rhyfel Oer ac a gafodd ei hadeiladu yn 1961 ... ac wedyn dros pob papur newydd yn y byd pan gafodd ei dymchwel mor ddiweddar â 1989. Y wal oedd wedi achosi cymaint o boen. Trio dychmygu lle yn union o dan ein traed roedd storïau wedi digwydd am ymdrechion teuluoedd ar chwâl i ddod at ei gilydd.

Mae llu o ‘atyniadau coffa’ ac amguedd-feydd eraill i’n hatgoffa o hanes hefyd.

Dydy paragraff byr yn gwneud dim cyfiawnder â’r hanes, na chwaith yn cyfleu bod Berlin yn ddinas fodern sydd yn edrych yn ei blaen gymaint ag yn ôl. Ond mae’n werth ymweld â’r ddinas anhygoel hon os cewch chi gyfle.

Rheinallt Griffith

Rysâit

Cyri eog dull Sri Lanka

Rhywbeth gwahanol i ddilyn gloddesta’r Nadolig. Digon i 4 – yn barod mewn 15 munud.

- 4 llwy fwrdd wastad o bast cyri korma
- 200ml o lefrith cnau coco, isel mewn braster
- 1 llwy fwrdd o flawd corn
- 200g tomatos ceirios
- 4 ffiled o eog, heb groen nac esgyrn, wedi’u torri’n ddarnau hwylus i’w bwyta
- 1 pen brocoli bach, wedi’i rannu’n flodigion (florets) bach

Rhowch y past cyri a 2 llwy fwrdd o ddŵr mewn sosban o faint canolig, a’i chynhesu dros wres cymedrol–isel. Coginiwch yn araf am 5 munud, gan droi’r hylif yn aml.

Ychwanegwch y blawd corn at 1 llwy fwrdd o lefrith cnau coco a throwch y cymysgedd i wneud past. Trowch hyn, gweddill y llefrith cnau coco, 150ml o ddŵr berw a’r brocoli i’r past cyri, ynghyd ag ychydig o halen a phupur. Mudferwch hyn am 5 munud.

Ychwanegwch y tomatos a’r ffiledau eog, ynghyd â sudd hanner lemwn a mudferwch y cyfan am 5 munud neu nes bod yr eog a’r brocoli wedi’u coginio’n ddigonol.

Gweinwch y saig yn boeth gyda reis gwyn wedi’i ferwi.

Rona Aldrich





DWYLO
GLÂN



MASG
YMLAEN



CADWA’N
BELL



AWYR
GWELL

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor Cymuned

- * Roedd Cyngor Sir Ddinbych am wybod faint o arian roedd ei angen ar y Cyngor Cymuned i weithredu ar gyfer 21/22 – penderfynwyd gadael hyn nes bydd cyllid-eb ddrafft wedi'i pharatoi.
- * Er bod biniau halen wedi'u gosod ar y ffyrdd o gwmpas Llangwyfan, mae hyn wedi'i wneud heb ymgynghori â'r trigolion. Fodd bynnag, gobeithir y bydd CSDd yn cysylltu â'r trigolion ac yn trafod y mater â nhw.
- * Cafwyd llythyr o ddiolch gan Fanc Bwyd Dinbych sy'n hynod ddiolchgar am y cyfraniad o £200.
- * Cafwyd cadarnhad mai prif weithredwr newydd MHC yw Mr Niall Kelly ac mae'n dymuno cynnal y berthynas dda sydd gan MHC â'r gymdogaeth a'i datblygu.
- * Mae'r goeden Nadolig wedi'i gosod ym mynwent yr eglwys. Eto eleni mae Glyn, Carol a'r teulu wedi talu amdani – cyfraniad blynyddol hynod hael. Diolch hefyd i David Weyman am roi o'i amser i nôl y goeden o Lanfair Talhaearn, heb godi am ei gostau chwaith.
- * Bu'r Cyngh. Butler mewn cyfarfod rhithiol Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun ar ran y cyngor. Mae'r gwaith yn yr ysbyty yn dod yn ei flaen yn dda, yr adeilad newydd wedi'i orffen ac mae'r adran ffisiotherapi wedi symud. Mae Metron newydd yn yr ysbyty ond mae'r wardiau wedi'u cau nes bydd y staff i gyd wedi cael eu brechu.
- * Cafwyd adroddiad gan y Cyngh Thomas fod yr ysgol wedi cael cyfarfod iechyd a diogelwch yn ddiweddar – mae'r cyfan mewn cyflwr da ac mae toiledau newydd i'r staff.
- * Cae Nant – cafwyd ymgynghoriad am gynig yr offer chwarae newydd a phenderfynwyd fwrw iddi i archebu offer chwarae gan Wickstead.
- * Yr Ystafelloedd Coco – archebwyd carped

newydd a bydd yn cael ei osod ddechrau'r mis yma.

- * Unwaith eto cafwyd pryderon am gyflymder y traffig ar y prif ffyrdd o gwmpas Llangwyfan pan mae staff MHC yn newid shift. Bydd y mater hwn yn cael ei godi yng nghyfarfod y grŵp cyswllt.
- * Cafwyd adroddiad bod y cwteri ar waelod Lôn Goch wedi'u blocio. Bydd y mater yn cael ei riportio i GSDd.
- * Mae sedd newydd wedi'i gosod ger croesffordd Celynog. Diolch i Mike Jones o G L Jones Welding, Rhuthun, am ei gwneud, ac i Glyn Williams, Ty'ncaeau am ei gosod.



Veronica Roberts yn mwynhau seibiant ar y fainc newydd – ei hawgrym hi a'i gŵr, Hugh, oedd hyn. Felly, ar ran y gymdogaeth, diolch!

Capel y Dyffryn

Heblaw am y gwasanaethau bob bore Sul am 9.45 ar Zoom gan y Parch. Andras Iago, cafwyd gwasanaeth bendithiol yng Nghapel y Dyffryn bnawn Sul, Rhafyr 13eg. Roedd hi mor braf i ddod yn ôl at ein gilydd mewn ffordd ddiogel. Bore Sul, Rhagfyr 20fed cafwyd gwasanaeth Nadolig ar-lein gan y plant a'r ieuenctid, gyda'r canlynol yn cymryd rhan: Alys a Leah; Cadi a Megan; Cai, Efan a Beca; Elinor, Anna ac Alaw; Gwenan a Nest; Harri, Tomos ac Efa; Iago, Mal-an a Sioned; Jac, Beca a Beth; Loti a Magi; Mabon a Medi; Mati Nel a Leusa Jên; Steffan a Nansi. Diolch i Catrin a Ffiona am gydlynw'r gwasanaeth hyfryd.

Nos Fercher, Rhagfyr 23ain, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Capeli'r Fro ar-lein gydag unigolion yn dewis eu hoff ddarllenadau neu garol. Bendithiol iawn.

Dydd Gwener Bore Dolig cafwyd gwasanaeth ar-lein.

Y Gymdeithas Nos Lun, 14 Rhagfyr, cafwyd gemau Bingo hwyliog ar-lein wedi eu trefnu gan Bethan, Alys a Leah. Diolchwyd gan Anna.

Croeso i Ifor Jones, sy wedi ymddeol fel peiriannydd dylunio electronig gyda chwmni Alcatel, Chippenham, ac wedi dod i fyw dros dro at ei efaill, Arthur, yn 4 Maes Tynog.

Apêl y Nadolig



Cafodd y casgliad yn Neuadd y Pentref ar gyfer y bobl ddigartref yn Wrecsam ymateb gwych – 50 bocs a 12 llond bag o ddillad. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd. Dosbarthwyd y nwyddau yr wythnos ganlynol ac roedd y rhai a gafodd yr anrhegion yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Diolch i David



Cyflwynodd Ruth Griffith hamper o nwyddau ar ran y gymdogaeth i David Plumb i ddiolch iddo am gadw'r pentref yn daclus.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602